

SWYDDOG TYFU TŶ HYLL

Rhan amser, 15 awr yr wythnos. Bydd angen ychydig o weithio hyblyg.

Contract tymor sefydlog 1 flwyddyn, gellir ei adnewyddu'n flynyddol (yn dibynnu ar arian) yn ystod cyfnod 3 blynedd y prosiect. Cyfnod prawf 3 mis yn y lle cyntaf.

£15,750 y flwyddyn (pro rata)

CEFNDIR

Mae Cymdeithas Eryri yn elusen gofrestrdig sy'n gweithio i ddiogelu, gwella a dathlu Parc Cenedlaethol Eryri. Mae ein swyddfa yn Caban, Brynrefail, a lleolir y swyddog yno.

Prosiect Ecosystem Eryri yw ein prif raglen gwirfoddoli a chaiff ei hariannu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a CAE (Cronfa Arbrofol Eryri). Mae'r prosiect yn helpu mannau arbennig a chynefinoedd bywyd gwyllt ar draws Eryri trwy ddarparu gwaith gwirfoddol a chyfleoedd hyfforddiant rhagorol. Diolch i arian newydd, rydym yn ehangu Prosiect Ecosystem Eryri i gynnwys ein heiddo amlycaf, Tŷ Hyll.

Gan adeiladu ar flynyddoedd o waith ynghylch pryfed peillio, garddio er lles bywyd gwyllt a rheoli coetiroedd, bydd swyddog Tyfu Tŷ Hyll yn ennyn diddordeb y cyhoedd a gwirfoddolwyr trwy:-

- ddatblygu a darparu cyfleoedd gwirfoddoli, addysg a chyfranogi ymarferol yn Nhŷ Hyll, yn cynnwys garddio er lles bywyd gwyllt a rheoli'r coetir.
- datblygu cyfleoedd hyfforddiant, yn enwedig trwy gydweithio â phartneriaid y Gymdeithas.
- mynychu digwyddiadau achlysurol mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru er mwyn gwella proffil gwaith y Gymdeithas.
- recriwtio aelodau a gwirfoddolwyr newydd, a datblygu capasiti gwirfoddoli a chodi arian cynaliadwy yn Nhŷ Hyll.

Bydd deilydd y swydd yn cydweithio'n agos â Swyddog Prosiect Ecosystem Eryri, Rheolwr y Prosiect, a'r Ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am Dŷ Hyll, a bydd yn atebol yn uniongyrchol i Reolwr y Prosiect. Byddant yn gyfrifol am y gwaith beunyddiol o gydlynu ac arwain digwyddiadau yn Nhŷ Hyll.

Mae'r swydd hon yn swydd ran amser, 15 awr yr wythnos. Bydd angen hyblygrwydd o ran diwrnodau gwaith. Bydd angen gweithio ar benwythnosau ar brydiau, a chaniateir amser o'r gwaith yn lle hynny.

DISGRIFIAD SWYDD

Prif Gyfrifoldebau

- Gweithio gyda Rheolwr y Prosiect i ddatblygu rhaglen ysbrydoledig o weithgareddau i wirfoddolwyr a'r cyhoedd.
- Arwain gwaith gwirfoddol ymarferol a digwyddiadau addysg, hyfforddiant ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn Nhŷ Hyll, ac mewn rhannau eraill o Eryri a'r cyffiniau ar brydiau.
- Ymroi i gefnogi gwirfoddolwyr, ac ymateb i ymholiadau a darparu gwybodaeth.
- Ymroi i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymdeithas ac aelodaeth ohoni, a helpu i gyflawni elfennau o'r strategaeth codi arian, trwy weithgareddau'r prosiect.
- Gweithio i sicrhau y bydd elfennau o'r prosiect yn gynaliadwy ar ôl i'r cyfnod ariannu ddod i ben.
- Cymryd cyfrifoldeb am hysbysebu a gweinyddu pob digwyddiad, yn cynnwys hysbysebion, archebion, cyfieithiadau, gohebiaeth, Cofnodion Iechyd a Diogelwch, ac asesu risgiau.
- Darparu adroddiadau ysgrifenedig a ffotograffau o weithgareddau ar gyfer cofnodion y prosiect, gwefan a chylchgrawn y Gymdeithas, a chyfryngau cymdeithasol.
- Trafod â phartneriaid i sicrhau fod y diwrnodau gwaith a'r digwyddiadau yn rhedeg yn ddidrafferth.
- Cynnal a diweddarau'r gronfa ddata gwirfoddolwyr a darparu gwybodaeth ddiweddaedig ar gyfer cronfa ddata aelodau'r Gymdeithas.
- Cynorthwyo Rheolwr y Prosiect â phob agwedd arall o waith y prosiect a gwaith y Gymdeithas yn ôl y galw.

MANYLEB PERSON

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn ymarferol a rhadlon sydd â syniadau creadigol a'r gallu i ysbrydoli gwirfoddolwyr.

Bydd gennych brofiad a gwybodaeth o:-

- arwain a gweithio gyda gwirfoddolwyr.
- gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill,
- rheoli cefn gwlad/gwarchod natur.

Mae angen ichi feddu ar hunangymhelliant, y gallu i ddatrys problemau a sgiliau cyfathrebu rhagorol, a dylech allu cymell grwpiau amrywiol o bobl i gyflawni nodau tasgau a sicrhau fod gwirfoddoli yn brofiad plerus, cyffrous a gwerth chweil i bawb. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol dros ben, a'r profiad o weithio mewn cymunedau a sefydliadau dwyieithog. Dylech allu defnyddio TG yn fedrus a hyderus.

Mae trwydded yrru gyfredol, eich cerbyd eich hun ac yswiriant defnydd busnes yn hanfodol, oherwydd bydd rhywfaint o'r gwaith yn digwydd ar draws Eryri a bydd angen cludo deunyddiau/offer llaw i leoliadau'r gwaith. Ad-delir milltired ac eithrio am deithio i'r swyddfa

SUT I WNEUD CAIS

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, ffoniwch Mary-Kate Jones ar 01286 685498.

Mae ein ffurflen gais safonol ar gael yn <http://www.snowdonia-society.org.uk/docLibrary.php> neu gallwch ffonio'r swyddfa ar 01286 685498.

E-bostiwch y ffurflen at mary-kate@snowdonia-society.org.uk, neu postiwch y ffurflen at Mary-Kate Jones, Cymdeithas Eryri, Caban, Brynrefail, Gwynedd, LL55 3NR.

Dyddiad cau: 12:00, 16 Chwefror

Cynhelir cyfweiliadau ar: 24 Chwefror

Caiff ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer eu hysbysu erbyn: 19 Chwefror